# Pecyn Cymorth Teuluoedd Chwareus

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Pecyn cymorth wedi ei ddylunio i helpu teuluoedd i gyfrifo faint o amser, lle a chaniatâd sydd gan eu plant i chwarae. Mae’r pecyn cymorth yn darparu awgrymiadau defnyddiol ar sut i annog mwy o enydau chwareus yn eu bywyd bob dydd a lleihau’r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Cefnogi teuluoedd sy’n wynebu rhwystrau
- Mae cynyddu amser, lle a chaniatâd i chwarae’n flaenoriaeth ar draws Wrecsam
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Gweithiwr Datblygu Chwarae
- Tîm Cyflawni Newid Gyda’n Gilydd (TAC)
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Defnyddiwyd dealltwriaeth o adborth o Brosiect Cynhwysiant y tîm chwarae
- Cefnogaeth sefydliadau eraill trwy adborth ar faterion oedd yn codi ar gyfer rhieni a theuluoedd
- Ariannu Teuluoedd yn Gyntaf
- Gwefan *Plentyndod Chwareus*

## Proses

- Defnyddiwyd gwybodaeth y tîm am fuddiannau chwarae
- Datblygwyd a rhannwyd drafft o becyn cymorth gyda darpar-ddefnyddwyr ar gyfer ymgynghori
- Cadarnhawyd y dyluniad a’r pecyn cymorth
- Defnyddiwyd y pecyn cymorth gyda theuluoedd yn ystod ymweliadau cartref fel rhan o Brosiect Cynhwysiant y tîm chwarae
- Defnyddiwyd y pecyn cymorth yn ystod sesiynau taro i mewn magu plant yn chwareus
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda theuluoedd ar sut i ddefnyddio’r pecyn cymorth

## Heriau

- Cael rhieni i ymrwymo i hyd y cwrs
- Newid mewn agweddau ynghylch gweithwyr proffesiynol yn dod ar ymweliadau cartref
- Capasiti'r tîm i ymgymryd â nifer o achosion

## Allbwn/deilliannau

- Cynorthwyo rhieni i deimlo'n fwy hyderus i adael i'w plant fynd allan i chwarae
- Cefnogi rhieni i fod yn fwy creadigol a chwareus yn eu bywydau bob dydd
- Cynyddu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant y tu hwnt i ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio
- Cynnig cefnogaeth a syniadau i deuluoedd gyda phlant anabl/plant ag anghenion ychwanegol
- Cefnogi gweithwyr proffesiynol i gael gwell dealltwriaeth o chwarae

Chwarae Cymru Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024